**Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Greu Swyddi yn yr Economi Werdd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

**23 Medi 2010**

---

## Cyflwyniad

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cydweddu'n dda â'n cyfeiriad polisi cyfredol. Mae hon yn ddogfen eang ei chwmpas a chanddi oblygiadau i bortffolios llawer o'm cyd-Weinidogion. Rwyf wedi ymgynghori yn unol â hynny ac mae'r ymateb yn ystyried eu safbwyntiau.

Mae'n bleser gennyf allu derbyn y rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor. Fodd bynnag: -

- Mae angen ystyried argymhellion 1, 3, 18, 26, 27 ymhellach;
- Derbynnir argymhellion 5 a 9 yn rhannol;
- Byddwn yn croesawu eglurhad pellach ynglŷn ag argymhelliad 15 yn fawr iawn.

Bu creu swyddi yn yr Economi Werdd yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth y Cynulliad, felly rwyf yn croesawu'r adroddiad hwn yn gynnes iawn ynghyd â'r cyfle i drafod yr hyn yr ydym yn ei wneud i gyflawni ein nodau.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ein Strategaeth ar gyfer Swyddi Gwyrdd, sy'n cyflawni'r ymrwymiad a wnaed yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu, Cymru'n Un. Mae'n elfen bwysig o ran sbarduno adferiad yn sgîl y dirwasgiad economaidd cyfredol, yn ogystal ag atgyfnerthu ein hymrwymiad i wrthsefyll achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae'n ategu ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy (Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned) ac yn rhannu ei weledigaeth o economi gadarn a chynaliadwy i Gymru sy'n gallu datblygu tra'n sefydlogi, ac yna'n lleihau ei defnydd o adnoddau naturiol a lleihau ei chyfraniad i newid yn yr hinsawdd. Mae *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* hefyd yn adlewyrchu'n llawn ein hymrwymiad i wneud Cymru yn wlad wirioneddol gynaliadwy, ac iddi economi gwastraff isel, carbon isel sy'n effeithlon o ran adnoddau.

Rydym am i fusnesau fod yn barod i wynebu'r dyfodol gyda hyder, drwy achub ar gyfleoedd i dyfu a dod yn fwy cystadleuol.
Rydym yn annog symud tuag at economi fwy cynaliadwy drwy amrywiaeth o weithgareddau y mae pob un ohonynt yn allweddol i roi adroddiad y Pwyllgor ar waith, gan gynnwys:

- Gwneud swyddi sy'n bodoli eisoes yn fwy gwyrdd,

- Ysgogi swyddi gwyrdd newydd i atgyfnerthu'r sector ynni carbon isel yng Nghymru,
- Cynllunio a chyflawni seilwaith,
- Buddsoddi mewn adfywio
- Caffael

Mae creu Swyddi yn yr Economi Werdd yn gofyn am gamau gweithredu ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad a chyfranogiad ein partneriaid yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus a sefydliadau cymdeithasol. Cydnabyddir hyn yn y Strategaeth Swyddi Gwyrdd.

Nodir fy ymateb, ac ymateb fy nghyd-Weinidogion, i argymhellion unigol yr Adroddiad isod. Wrth dderbyn argymhellion, rwyf yn falch o nodi bod y gwaith ar weithredu llawer ohonynt yn mynd rhagddo'n dda.

**Ymatebion Manwl i Argymhellion yr Adroddiad:**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 1.**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bennu blaenoriaethau mwy pendant wrth weithredu ei Strategaeth Swyddi Gwyrdd ac y dylai bennu deilliannau a thargedau cliriach ym meysydd cyflogaeth a chreu cyfoeth wrth ddyrannu ei adnoddau. (**Tudalen 15)**

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Cyfrifoldeb AETh ac Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai fydd llunio'r mathau hyn o ddangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'u gwaith ar ddatblygu strategaethau a rhaglenni. Mae APADGOS wrthi'n gweithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector i fesur, yn fanylach, yr heriau o ran sgiliau a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â symud tuag at economi carbon isel a'r buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw ofynion ariannol ychwanegol. Caiff cyllid mewn perthynas â'r Cynghorau Sgiliau Sector ei gydlynu drwy Gomisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU drwy Lywodraeth y DU. Nid oes disgwyliad i ni ariannu gweithgarwch cylch gwaith craidd y Cynghorau Sgiliau Sector.

Caiff unrhyw oblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r argymhellion a dderbyniwyd eu hystyried fel rhan o ddatblygu 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' a chaiff cyngor pellach ei geisio yn eu cylch.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru fonitro effeithlonrwydd eu holl bolisïau, rhaglenni a chynlluniau cymorth er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal egwyddorion gwyrdd ac yn ymdrechu i'w hyrwyddo. **(Tudalen 19)**

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn deall yn glir sut y bydd ein polisïau, ein rhaglenni a'n cynlluniau cymorth gyda'i gilydd yn gwella lles pobl yng Nghymru. Mae hyn yn gyson â diffiniad y Cynllun o ddatblygu cynaliadwy fel datblygu sy'n hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gennym ddyletswydd statudol i lunio cynllun sy'n amlinellu sut y bwriadwn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Cyhoeddwyd ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy presennol, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, ym mis Mai 2009 ac mae'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae datblygu cynaliadwy, a'n Cynllun, yn ymwneud ag agenda ehangach o lawer na hyrwyddo egwyddorion gwyrdd a byw o fewn terfynau amgylcheddol yn unig. Mae adeiladu economi gadarn a chynaliadwy a chynnal ecosystemau sy'n iach, yn amrywiol yn fiolegol ac yn gynhyrchiol yn themâu allweddol yn y ffordd rydym yn gweithredu.

Rydym yn rhoi adroddiad ar ddatblygu cynaliadwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn, ac mae hwn yn cynnwys manylion am y dangosyddion datblygu cynaliadwy diweddaraf. Mae'n ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru gyhoeddi (yn sgîl etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol) adroddiad sy'n asesu pa mor effeithiol fu'r cynigion (fel y'u hamlinellwyd yn y Cynllun ac fel y'u gweithredwyd) o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Mae Pwyllgor y Cabinet ar Ddyfodol Cynaliadwy yn chwarae rhan yn y dasg o sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn cael ei weithredu'n effeithiol fel ein hegwyddor trefnu ganolog.

Er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymryd camau effeithiol ynglŷn â materion allweddol, megis newid yn yr hinsawdd, rydym yn datblygu offer penodol a fydd yn ein galluogi i nodi effaith carbon polisïau a rhaglenni allweddol a'u haddasu yn unol â hynny.

**Goblygiadau Ariannol** - Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r argymhelliad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso sut y mae'r cynllun Cymorth Hyblyg i Fusnes yn gweithio i hybu'r economi werdd, gan geisio ymateb y busnesau sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth, gyda'r nod o gael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn mentrau carbon isel. (**Tudalen 20)**

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor
Yn sgîl cyhoeddi "Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd", ni chaiff y brand Cymorth Hyblyg i Fusnes ei ddefnyddio mwyach. Mae ein cyfeiriad polisi newydd yn nodi bod angen annog ymddygiad busnes sy'n cefnogi ein

hamcanion polisi ehangach, gan gynnwys effeithlonrwydd adnoddau. Wrth ddatblygu'r gweithgarwch hwn o dan y thema Arferion Busnes Cyfrifol, byddwn yn gwerthuso ac yn adeiladu ar safbwyntiau cwsmeriaid gan fusnesau sydd wedi cael gafael ar gymorth drwy'r gwasanaeth gan gynnwys y canolfannau rhanbarthol a'r mentrau effeithlonrwydd adnoddau.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff hyn ei ymgorffori yn y gweithgarwch gwerthuso presennol a'r arolwg o safbwyntiau cwsmeriaid. Daw unrhyw gostau cysylltiedig o gyllidebau presennol AETh.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i ddefnyddio nifer o ddangosyddion a all fesur "cynnydd" a "ffyniant" Cymru, nid yn unig o safbwynt materol neu ariannol, ond hefyd o safbwynt lles cymdeithasol ac amgylcheddol, ac y dylid defnyddio'r dangosyddion hyn fel dulliau mesur safonol yn holl adrannau a strategaethau'r Llywodraeth. **(Tudalen 21)**

**Ymateb:** Derbyn

Cadarnhaodd ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd fod gennym bum prif ddangosydd o ddatblygu cynaliadwy i fesur cynnydd tuag at ddod yn wlad fwy cynaliadwy. Noda'r Cynllun y dylid ystyried y dangosyddion ar y cyd ac nid yn unigol. Maent yn cwmpasu'r materion canlynol:

- Cynnydd economaidd: Gwerth Ychwanegol Crynswth a GYC y pen;
- Cynnydd cymdeithasol: % o gartrefi sy'n gartrefi incwm isel;
- Cynnydd amgylcheddol: % o gynefinoedd a rhywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gofnodwyd yn rhai sefydlog neu gynyddol;
- Cynnydd o ran Defnyddio Adnoddau; Ôl troed ecolegol Cymru;
- Lles Cymru.

Roedd ein Cynllun newydd yn cynnwys cam gweithredu i ddatblygu mesur o les Cymru fel pumed prif ddangosydd o ddatblygu cynaliadwy. Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, cadarnhaodd y Cabinet y byddem yn mesur lles Cymru drwy ddefnyddio'r mesurau canlynol:

- Boddhad cyffredinol gyda bywyd;
- Lles meddyliol a chorfforol.

Byddwn hefyd yn cyfeirio at ddau adroddiad sy'n bodoli eisoes (mae'r ddau ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad) sy'n canolbwyntio ar les ar wahanol adegau o fywyd:

- Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc;
- Monitor Lles Pobl Hŷn.

Yn ogystal â'r dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am ystod o ddangosyddion sy'n dangos cynnydd o ran amrywiol ddimensiynau cymdeithasol, economaidd ac

amgylcheddol. Mae'r rhain ar gael ar wefan StatsCymru. Mae llawer o'r rhain yn gyson yn fras â'r dangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Mae rhai yn mesur cynnydd uniongyrchol o ran meysydd polisi a rhaglenni allweddol tra bod eraill yn mesur canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru. Rydym yn ymrwymedig i wella lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mewn ffordd gydgysylltiedig, a defnyddio dangosyddion priodol i asesu a dangos cynnydd tuag at hyn.

**Goblygiadau Ariannol** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r argymhelliad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau y cyrhaeddir y targedau y cytunwyd arnynt ar gyfer canran y trydan sydd i'w gynhyrchu o gynlluniau adnewyddadwy morol a chynlluniau microgynhyrchu fel y bydd Cymru ar flaen y gad yn datblygu marchnadoedd cynaliadwy ar gyfer sector gweithgynhyrchu a gwasanaethau cymorth gwyrdd. **(Tudalen 26)**

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Mae ein Datganiad Polisi Ynni *Chwyldro Carbon Isel* yn nodi ein huchelgais mewn perthynas â chynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy.

Derbyniwyd yr argymhelliad hwn yn rhannol oherwydd, er ein bod yn ymrwymedig i chwarae rhan lawn yn y gwaith o gyflawni'r targedau hyn, rydym yn cydnabod y bydd angen camau gweithredu effeithiol gan Lywodraeth y DU, datblygwyr, cymunedau, busnesau, buddsoddwyr, rheoleiddwyr a darparwyr hyfforddiant hefyd er mwyn sicrhau llwyddiant.

Mae *Chwyldro Carbon Isel* yn cadarnhau, o ran ynni ffrwd llanw ac ynni'r tonnau, mai ein targed bellach yw:

- dal o leiaf 10% (8 kWh/d/p) o'r ynni ffrwd llanw ac ynni'r tonnau sydd ar gael o bosibl oddi ar arfordir Cymru erbyn 2025.

Mae camau gweithredu allweddol i'w gwneud yn bosibl i'r targed hwn gael ei gyflawni yn cynnwys:

- Gweithio'n agos gyda chyrff y DU megis yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Ystadau'r Goron, yr Ymddiriedolaeth Garbon, y Sefydliad Technolegau Ynni a Bwrdd Strategaeth Technoleg y DU i gynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu technoleg a lleihau costau a fydd yn angenrheidiol er mwyn i'r rhain ddod yn dechnolegau adnewyddadwy prif ffrwd;
- Adeiladu ar waith Sefydliad Ymchwil Carbon Isel Cymru ac argymhellion Grŵp Cynghori Gweinidogol LIywodraeth Cynulliad Cymru ar yr Economi a Thrafnidiaeth;

- Cadw'r opsiwn o ddefnyddio arian cydgyfeirio'r UE ar gyfer technoleg forol newydd;
- Cefnogi'r posibilrwydd o safle profi/arddangos 'ffrwd llanw' datblygol ar gyfer datblygiadau ar raddfa fasnachol oddi ar arfordir Gorllewin Cymru;
- Casglu data amgylcheddol i lywio penderfyniadau ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn y dyfodol;
- Hyrwyddo Cymru fel ardal economaidd carbon isel ar gyfer ynni'r llanw yn y DU.

Rydym hefyd yn cymryd nifer o gamau i hyrwyddo microgynhyrchu a chynhyrchu ynni ar raddfa gymunedol. Er enghraifft:

- Mae Ynni'r Fro – a ariennir drwy Fframwaith Strategol Newid Hinsawdd rhaglen y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau cynhyrchu ynni ar raddfa gymunedol ledled Cymru.
- *arbed* – mae'n cefnogi buddsoddi mewn gwella perfformiad ynni cartrefi mewn cyfres o brosiectau mewn ardaloedd penodol yn yr Ardaloedd Adfywio ledled Cymru.
- Cynllunio defnydd tir – rydym wedi cyhoeddi polisi cynllunio newydd, canllawiau technegol, ymchwil a hyfforddiant yn ddiweddar er mwyn galluogi proses gwneud penderfyniadau lleol effeithiol ar brosiectau ynni.

Fel y nodwyd yn *Chwyldro Carbon Isel,* rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i annog pobl i fanteisio ar gymhellion ariannol ynni adnewyddadwy. Yn benodol rydym yn hyrwyddo buddiannau posibl tariffau cyflenwi trydan ar gyfer prosiectau adnewyddadwy cymunedol.

Mae Llywodraeth newydd y DU yn datblygu nifer o raglenni newydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy. Mae'r rhain yn cynnwys y Fargen Werdd, y Banc Buddsoddi Gwyrdd a rhwymedigaethau posibl ar gyflenwyr yn y dyfodol. Rydym yn trafod y cynlluniau hyn gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau y cânt eu cynllunio mewn ffordd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau yng Nghymru ac yn ategu ein rhaglenni.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae goblygiadau ariannol i gyflawni'r targedau hyn:

- Mae Ynni'r Fro yn cael dros £7miliwn o Grant Datblygu Rhanbarthol Ewrop.
- Mae Cam I *arbed* yn cael £30m o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol a bydd Cam II, sydd ar gam cynllun busnes, yn hawlio swm tebyg o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cynnig anogaeth i gwmnïau sy'n gweithio yng Nghymru i gydweithio i ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy er mwyn creu galw am fusnesau gwyrdd newydd. (**Tudalen 26)**

**Ymateb:** Derbyn

Nodwyd Ynni a'r Amgylchedd yn "Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd" fel un o chwe sector lle gallwn, gydag ymyriadau wedi'u targedu'n well, sicrhau mantais gystadleuol a manteisio ar farchnadoedd sy'n tyfu.

Mae Ynni a'r Amgylchedd yn un o'r chwe sector â blaenoriaeth a nodwyd gan *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*. Mae'r polisi yn cefnogi buddsoddi yn y maes hwn ac, ar ôl iddo gael ei sefydlu, bydd y panel sector annibynnol yn pennu blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad pellach gan AETh. Bydd y panel hwn yn rhoi cyngor annibynnol ac felly ni ellir gwarantu y bydd y panel sector yn argymell cymhellion fel y'u disgrifiwyd.

Mae ein Datganiad am Ynni Carbon Isel (2010) yn nodi bod gan Gymru nifer o ddiwydiannau ynni a sefydliadau ymchwil eisoes. Drwy adeiladu ar hyn gallai Cymru arwain o ran datblygiadau economaidd carbon isel a gallai fod yn rhan gynyddol bwysig o'n sylfaen ymchwil a thechnoleg yn y dyfodol.

Er bod y cyfrifoldebau am brif gyflenwadau ynni o ran cynllunio a rheoleiddio gan Lywodraeth y DU, byddwn yn defnyddio ei holl bwerau - gan gynnwys cynllunio, trafnidiaeth, datblygu economaidd, diogelu'r amgylchedd a thai - i gefnogi'r datganiad polisi hwn a byddwn yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a'r rheoleiddiwr, OFGEM, i sicrhau y caiff ei adlewyrchu yn eu penderfyniadau hwy.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol na chyfrifwyd amdanynt o fewn DESH i Lywodraeth y Cynulliad wrth dderbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu rhagor o fusnesau Cymru i gael eu hachredu gan y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS) er mwyn sicrhau bod cwmnïau Cymru'n gallu elwa o'r cyfleoedd a gynigir gan raglenni ynni adnewyddadwy cymunedol. **(Tudalen 27)**

**Ymateb:** Derbyn

Rydym eisoes wedi sefydlu rhaglen i gynorthwyo'r diwydiant microgynhyrchu gan gynnwys achredu o dan y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu.

Cyflwynir y rhaglen mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Ymddiriedolaeth Garbon. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn cynnig benthyciadau di-log i gwmnïau sy'n dymuno cael achrediad MCS ac mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi penodi swyddog datblygu penodol sydd â'r rôl o hwyluso'r broses o gael achrediad i osodwyr yng Nghymru a galluogi'r busnesau hynny i gystadlu am waith yn llwyddiannus.

Rydym hefyd yn sefydlu Rhwydwaith Microgynhyrchu i Gymru a fydd yn ein galluogi i glywed yn uniongyrchol gan fusnesau ynglŷn â'r cymorth sydd ei angen arnynt ac yn rhoi modd i ledaenu gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth.

Bwriedir i'r camau gweithredu hyn alluogi cwmnïau yng Nghymru i fanteisio ar y twf yn y diwydiant adnewyddadwy a ysgogir gan Dariffau Cyflenwi Trydan.

Rydym hefyd yn cefnogi prosiect "Cyflwyno Sgiliau Carbon Isel" gyda'r Cyngor Sgiliau Sector gyda'r bwriad o nodi hyfforddiant a chymwysterau achrededig â blaenoriaeth ar gyfer gweithlu amgylchedd adeiledig Carbon Isel yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae'r rhaglen yn costio £300,000 yn 2010-11, y mae 75% o'r arian hwnnw wedi cael ei ddarparu o fewn dyraniadau sydd eisoes wedi'u gwneud i'r Ymddiriedolaeth Garbon o fewn cyllidebau DESH.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio â phartneriaid, gan ddechrau gyda'r sector tai cymdeithasol, i sicrhau cyllid a datblygu rhaglenni lleol fesul ardal, ledled y wlad, i wneud gwaith ar adeiladau sydd eisoes yn bod i'w gwneud yn fwy ynni-effeithlon. Yn ogystal â'r manteision cymdeithasol ac amgylcheddol, byddai hyn yn creu swyddi medrus lleol ac yn cefnogi cwmnïau o Gymru sy'n gwneud nwyddau arbed ynni. (**Tudalen 30)**

Ymateb: **Derbyn**

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad raglen o'r fath eisoes ar waith – *arbed*.

Drwy raglen *arbed*, rydym yn buddsoddi £30m yng ngham cyntaf rhaglen cyfarparu cartrefi mewn ardaloedd penodol. Mae'n gweithio gyda darparwyr tai cymdeithasol i wneud cartrefi mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru yn fwy effeithlon o ran ynni. Mae hyn yn golygu cyfarparu cartrefi drwy inswleiddio muriau allanol a gosod paneli solar a phympiau gwres. Mae'r buddsoddiad yn hwb mawr i economi Cymru, gan greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau yng Nghymru i bobl Cymru. Drwy dargedu cymunedau incwm isel yn ardaloedd adfywio Cymru, mae'n gobeithio canolbwyntio gwaith mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf am gymorth. Hyd y gellir, rydym yn ceisio sicrhau bod y gwaith o wneud cartrefi ac adeiladau Cymru yn fwy gwyrdd yn cael ei wneud gan fusnesau a gweithwyr yng Nghymru, gan ddefnyddio cynhyrchion o Gymru.

Rydym wedi mynd ati i helpu Cymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol i gael gafael ar gyllid allanol, yn bennaf drwy'r ddwy rwymedigaeth ar gyfer cyflenwyr ynni (y Rhaglen Arbed Ynni Gymunedol, CESP, a'r Targed Lleihau Allyriadau Carbon, CERT). Mae sawl cwmni ynni bellach mewn trafodaethau gyda chleientiaid ynglŷn â neilltuo cyllid yng Nghymru, gyda rhai prosiectau eisoes wedi'u cyflwyno i Ofgem i'w cymeradwyo.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r Cynllun Busnes i sicrhau arian gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer ail gam *arbed*. Disgwyliwn i'r cam hwn ddenu cyfran fwy o dai sector preifat ond bydd tai cymdeithasol yn parhau i fod yn elfen bwysig.

Mae rhaglenni eraill, er enghraifft Ardaloedd Adfywio, wedi llwyddo i sicrhau adfywio tai mewn modd cynaliadwy, yn enwedig yn y sector preifat. Maent yn galluogi awdurdodau lleol i ganolbwyntio gweithgarwch a buddsoddiad mewn ardaloedd sy'n cyfuno angen am gymorth a photensial adfywio. Eu nod yw sicrhau gwelliannau cynaliadwy mewn tai, cyfleusterau cymunedol ac amodau amgylcheddol-gymdeithasol cysylltiedig gan gynnwys cyflogaeth, hyfforddiant, buddiannau mewn iechyd a lleihau troseddu.

Oherwydd natur yr ardaloedd adfywio mae graddau'r gwaith a'r math o wait a wneir yn amrywio, ond mae'r rhan fwyaf fel arfer yn cynnwys gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yn yr ardal, yn aml fel rhan o raglen wella ehangach i fynd i'r afael â rhai o'r amodau tai gwaethaf. Mae llawer o awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr ynni lleol yn eu hardaloedd adfywio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni sydd ar gael.

Enghraifft dda iawn o'r ffordd y gellir defnyddio ardaloedd adfywio i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni oedd ardal adfywio Llanwddyn, a oedd yn cynnwys cynllun ynni biomas a oedd yn darparu gwres i'r pentref (37 o dai), yr ysgol leol a'r ganolfan gymunedol. Cafodd y system ei gosod, ei gweithredu a'i chynnal gan ddau gwmni ynni adnewyddadwy.

**Goblygiadau ariannol:** *arbed* Cefnogir Cam I gan £30m o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol a bydd Cam II, sydd ar gam cynllun busnes, yn hawlio swm tebyg o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Cyllideb gyfredol Ardaloedd Adfywio Llywodraeth y Cynulliad yw £24 bob blwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylid ehangu cynlluniau peilot fel y Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned i gynnwys adeiladau sy'n anos eu cynhesu ac felly sy'n fwy o her ac yn fwy costus eu hadnewyddu. (**Tudalen 31)**

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

Derbynnir yr argymhelliad hwn yn rhannol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein rhaglenni wedi'u llunio mewn ffordd sy'n eu galluogi i gynorthwyo adeiladau 'anos eu trin'. Fodd bynnag, un o raglenni Llywodraeth y DU yw'r Rhaglen Arbed Ynni Gymunedol (CESP) y cyfeirir ati yn yr argymhelliad, ac nid ydym yn pennu ei therfynau gweithredu.

Cynlluniwyd *arbed* i'w gwneud yn bosibl i fuddsoddi mewn amrywiaeth ehangach o adeiladau ac mae'n defnyddio ystod lawn o dechnoleg effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy gan gynnwys inswleiddio waliau solet a phaneli solar ffotofoltäig.

Mae'r Strategaeth Tlodi Tanwydd yn egluro ein bwriad i newid rhaglenni er mwyn sicrhau y gallant gynorthwyo cartrefi anodd eu trin.

Rydym hefyd wedi cynnal cynllun peilot tŷ cyfan o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref sydd wedi ei gwneud yn bosibl i osod amrywiaeth ehangach o dechnolegau effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni carbon isel. Mae'r cynllun peilot wrthi'n cael ei werthuso a bydd y canlyniad yn llywio'r ffordd y caiff y Cynllun Tlodi Tanwydd newydd i Gymru gyfan ei lunio, cynllun a fydd yn disodli'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref ar ôl y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi mynd ati i helpu Cymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol i gael gafael ar gyllid allanol, yn bennaf drwy'r ddwy rwymedigaeth ar gyfer cyflenwyr (a chynhyrchwyr) ynni (y Rhaglen Arbed Ynni Gymunedol, (CESP), a'r Targed Lleihau Allyriadau Carbon, (CERT)). Mae sawl cwmni ynni bellach mewn trafodaethau gyda chleientiaid ynglŷn â neilltuo cyllid yng Nghymru, gyda rhai prosiectau eisoes wedi'u cyflwyno i Ofgem i'w cymeradwyo.

**Goblygiadau Ariannol:**

*arbed* Cefnogir Cam I gan £30m o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol a bydd Cam II, sydd ar gam cynllun busnes, yn hawlio swm tebyg o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 10.** O ystyried y dystiolaeth a gawsom am y cyfleoedd sylweddol y mae cynlluniau effeithlonrwydd ynni yn eu cynnig i Gymru, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut i fanteisio i'r eithaf ar waith ymchwil a phrofi nwyddau a thechnolegau arloesol. **(Tudalen 31)**

Ymateb: **Derbyn**

Gall busnesau yng Nghymru wneud defnydd o 'Dalebau Arloesi', sydd ar gael i sicrhau cymorth arbenigol gan y sector preifat, yn ogystal â phrifysgolion er mwyn manteisio ar gynhyrchion a thechnolegau arloesol megis dyfeisiau effeithlonrwydd ynni cartref. Mae'r rhain yn rhoi hyd at £10,000 o gymorth fesul prosiect cymwys ar hyn o bryd.

Gall busnesau hefyd gael cymorth drwy'r Tîm Arloesi i gael gafael ar ffynonellau ariannu allanol, er enghraifft mae cwmni o Gymru newydd gael cymorth i sicrhau swm sylweddol o gyllid gan yr UE ar gyfer ymchwil a datblygu er mwyn datblygu mesuryddion deallus, gan gydweithredu â Phrifysgol Morgannwg, BRE a 14 o bartneriaid Ewropeaidd eraill.

Mae'r Rhaglen Arbenigedd Academaidd i Fusnesau (A4B) yn ariannu'r broses o drosglwyddo gwybodaeth o'r sector academaidd i fusnesau. Mae Canolfan Trosglwyddo Gwybodaeth (KTC) yn Ysgol Bensaernïaeth Prifysgol Caerdydd wedi cael ei hariannu am dair blynedd ar gyfer y prosiect "Delivering Low Carbon Buildings Cymru". Bydd y prosiect hwn yn hyrwyddo ac yn dangos buddiannau cynllunio, adeiladu a gweithredu cynaliadwy yn yr amgylchedd adeiledig drwy weithio'n benodol gyda'r diwydiant adeiladu a phenseiri.

Rydym wedi rhoi cymorth i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer profion solar, thermol a phympiau gwres. Yn y profion hyn gwnaed gwaith monitro cenedlaethol i gasglu mesuriadau manwl o berfformiad ar osodiadau mewn cartrefi yn y DU.

Rydym wedi cyflwyno Pympiau Gwres o'r Awyr fel mesur cymwys o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES). Cynhelir gwerthusiad annibynnol ar ddau gam o'r Pympiau Gwres o'r Awyr a osodwyd o dan HEES er mwyn rhoi tystiolaeth o brofiad cwsmeriaid, pa mor hawdd ydynt i'w defnyddio, arbedion biliau tanwydd a gostyngiadau $CO_2$, ar ôl eu gosod ac wedyn 12 mis yn ddiweddarach. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn helpu i lywio buddsoddiad mewn Pympiau Gwres o'r Awyr yn y dyfodol drwy raglenni effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Rydym yn ariannu cynllun peilot asesu tŷ cyfan i ymchwilio i ffordd 'asesu tŷ cyfan' arloesol o adnewyddu adeiladau aneffeithlon a'i phrofi.

Caiff y prosiect ei werthuso'n annibynnol i asesu profiadau aelwydydd, amcangyfrif yr arbedion gwirioneddol a wneir o ran ynni, cost a lleihau $CO_2$, cymharu â'r arbedion gwirioneddol a ragwelwyd ar y pryd drwy ddefnyddio meddalwedd rdSAP, ystyried rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaeth rhwng yr arbedion amcangyfrifedig a'r arbedion gwirioneddol, a gwneud argymhellion i wella'r broses a sicrhau'r arbedion mwyaf posibl. Bydd canlyniad y gwerthusiad yn helpu i lywio ymhellach y broses o ddatblygu pecynnau gwella ynni a gynigir o dan y Rhaglen Tlodi Tanwydd newydd i Gymru gyfan a fydd yn disodli'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref o fis Ebrill 2010.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol gan fod prosiectau yn cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy'r canlynol: -

- Y Tîm Arloesi o gyllidebau presennol ond mae cyllid yn y dyfodol yn cael ei adolygu fel rhan o "Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd". Mae tua £50,000 yn cael ei ddarparu i werthuso'r prosiect asesu tŷ cyfan.

- Cyllideb y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn 2010-11 yw £20 miliwn. Mae tua £50,000 yn cael ei ddarparu i werthuso'r prosiect asesu tŷ cyfan.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell y dylai'r elfennau a ganlyn fod yn hanfodol wrth ehangu rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn y cartref: achredu priodol ar gyfer technoleg arbed ynni a'r sawl sy'n ei gosod; darpariaeth ar gyfer asesiadau annibynnol er mwyn sicrhau y glynir at y safonau gosod y cytunwyd arnynt; a sianel gyfathrebu glir ar gyfer cwsmeriaid sydd â chwestiynau neu gwynion. **(Tudalen 32)**

Ymateb: **Derbyn**
Rydym eisoes wedi gweithredu'r argymhelliad yn ein rhaglenni.

Rydym yn rhoi cymorth i helpu busnesau yng Nghymru i sicrhau'r achrediad angenrheidiol i osod technolegau microgynhyrchu dan y Cynllun Achredu Microgynhyrchu. Bydd y rhaglen yn rhoi cyfle i gwmnïau yng Nghymru fanteisio ar y twf yn y diwydiant adnewyddadwy, a ysgogir gan Dariffau Cyflenwi Trydan.

Mae proses gaffael wedi dechrau i benodi asiant rheoli ar gyfer y Rhaglen Tanwydd Tlodi newydd i Gymru gyfan. Bydd y contract newydd yn manylu ar ein gofynion ynglŷn ag achredu gosodwyr a thechnolegau effeithlonrwydd ynni, archwilio gosodiadau a gynhaliwyd o dan y rhaglen, a'r gofynion o ran gofal cwsmeriaid ar bob cam o'r broses. Bydd y rhaglen yn cynnwys pwynt cydgysylltu canolog a fydd yn cynnig atgyfeiriadau dwyffordd ar gyfer cyngor a chymorth i helpu deiliaid tai i leihau eu biliau tanwydd, gwneud eu heiddo yn fwy effeithlon o ran ynni a defnyddio eu hincwm yn y ffordd orau bosibl.

Bydd yn ofynnol i'r sawl sy'n cael grant o dan raglen *arbed* ystyried effeithiau tebygol y mesurau sy'n cael eu gosod a chymryd camau i gynnal safonau priodol. Bwriedir i bob gosodiad microgynhyrchu gael ei gymeradwyo gan osodwr achrededig o dan MCS a bydd yn rhaid i systemau inswleiddio waliau allanol ddod o dan warant briodol, sydd ar gael gan y Gymdeithas Gwarantu Inswleiddio Waliau Solet. Yn ystod y broses osod, bydd y sawl sy'n cael y grant yn gyfrifol am yr holl waith mewn tai cymdeithasol a thai preifat ac am drefnu ffordd o ymateb i gwestiynau preswylwyr. Bydd y sawl sy'n cael grant naill ai'n gyfrifol yn uniongyrchol am gynnal y gwelliannau i'r eiddo yn achos tai cymdeithasol neu'n gyfrifol am sicrhau bod contractau priodol ar waith rhwng y contractwr sy'n gwneud y gwaith a'r deiliaid tai preifat.

O dan y Fargen Werdd arfaethedig, bydd Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau bod y broses asesu yn sicrhau cyngor o safon uchel ac argymhelliad clir ynglŷn â mesurau priodol. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn cynnig y dylai mesurau 'â nod barcud' gael eu gosod gan osodwyr achrededig. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr cyllid, gosodwyr a darparwyr cyngor gydymffurfio â chodau ymddygiad er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag ymholiadau a chwynion mewn modd prydlon ac effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol:**
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol. Mae'r argymhelliad yn canolbwyntio ar sicrhau safonau cyflawni uchel ac mae hyn yn rhan annatod o'n rhaglenni.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell y dylai rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn y cartref roi cymaint o flaenoriaeth i greu swyddi ag y rhoddant i dlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon ac y dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol ddefnyddio'r drefn gaffael fel hwb i greu swyddi gwyrdd. **(Tudalen 32)**

**a) Ymateb –** Derbyn

Rydym eisoes wedi gweithredu'r argymhelliad hwn yn ein rhaglenni.

Mae rhaglen *arbed*, yn benodol, yn bwriadu cyflawni buddiannau cymdeithasol (mynd i'r afael â thlodi tanwydd) amgylcheddol (lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr) ac economaidd (creu swyddi a thwf busnes).

Darperir ar gyfer creu swyddi yn y cynigion grant o dan *arbed*, mae'n rhaid i'r rhai sy'n cael grantiau (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig/cynghorau) ymrwymo i gymryd rhan mewn mesurau wedi'u targedu i gyflenwyr drwy delerau ac amodau cytundebol. Ymhlith y mesurau hyn mae:

- Mynd i ddigwyddiadau cwrdd â'r prynwr cyn ymgymryd â phroses gaffael. Hyd yma, mae Adeiladu Cymru wedi cynnal tri digwyddiad lle bu pawb sydd wedi cael grant a thros 100 o fusnesau'n bresennol
- Sicrhau bod Recriwtio a Hyfforddi Wedi'u Targedu yn rhan greiddiol o gontractau, gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Gallu Gwneud
- Darparu nifer benodol o wythnosau i hyfforddeion am bob £1m a werir
- Cael hyd i gyfleoedd hyfforddiant/cyflogaeth drwy JobMatch a rhaglenni cyfatebol.
- Helpu contractwyr lleol i ennill cymwysterau/achredu (e.e. MCS, lle y bo'n briodol
- Mynd i ddigwyddiadau dysgu a gynhelir gan ein swyddogion a'n partneriaid yn *arbed*.

Mae proses gaffael wedi dechrau i benodi asiant rheoli ar gyfer y Rhaglen Tanwydd Tlodi newydd i Gymru gyfan. Bydd y contract newydd yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cynaliadwy a chyflawni rhaglenni yng Nghymru a fydd yn creu cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant gwyrdd cynaliadwy, hirdymor, buddiannau cymdeithasol drwy leihau tlodi tanwydd, a buddiannau amgylcheddol drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector cartrefi.

Mae'r ddwy raglen hyn yn rhan o sefydlu ffordd gydgysylltiedig newydd o atgyfnerthu'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru; cydgysylltu buddsoddiad yng nghartrefi ac adeiladau Cymru, gweithio gyda Gwerth Cymru er mwyn sicrhau bod prosesau caffael yn esgor ar fuddiannau economaidd gwirioneddol i Gymru, atgyfnerthu cadwyn gyflenwi a sylfaen sgiliau Cymru a nodi a rheoli prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy cadarn hyd nes eu cwblhau.

Ffurfiwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ymdrin yn benodol â'r angen i sicrhau'r buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mwyaf i Gymru o ganlyniad i gaffael ym maes tai ac adfywio. Bydd y grŵp yn cyflwyno ei argymhellion erbyn diwedd mis Chwefror 2011.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cael grantiau *arbed*, o fewn telerau ac amodau'r grant, ddarparu 156 o wythnosau i hyfforddeion am bob £1m a werir o'r Gyllideb gyfan o £30m. Bydd ffigurau bras ar gyfer cyfran y contractwyr a'r deunyddiau a gafaelwyd yn lleol ar gael yn yr hydref.

**b) Ymateb:** Derbyn

Bydd canlyniadau allweddol o'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a'r Grŵp Gorchwyl Caffael Tai ac Adfywio yn helpu i ddatblygu safonau ar gyfer nwyddau a fydd yn ofynnol mewn rhaglenni buddsoddi yn y dyfodol. Ar y cyd ag AETh, mae Gwerth Cymru yn ceisio nodi bylchau lle y gellid dod o hyd i gyflenwad o gynhyrchion neu wasanaethau gwyrdd gan fusnesau cynhenid.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, gan fod y gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd o fewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried a yw'n ymarferol cynnal rhagor o gynlluniau 'o wastraff i wres', ac y dylai barhau i ddatblygu agwedd fwy cydgysylltiedig at adfer mwy o wastraff organig ledled Cymru. **(Tudalen 34)**

Ymateb: **Derbyn**

Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff, sef y ddogfen strategaeth gyffredinol i Gymru ynglŷn â gwastraff (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010) yn nodi y dylai prosesau ynni o wastraff gael eu cynnal yn effeithlon iawn o ran ynni. Dim ond drwy'r defnydd buddiol o wres y gellir cyflawni hyn. Rydym yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i ystyried dichonoldeb ateb y galw am wres ymhlith busnesau gweithgynhyrchu, adeiladau cyhoeddus ac ystadau tai, gan ddefnyddio’r cyflenwad posibl o wres o ynni o safleoedd gwastraff newydd.

Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn dadlau o blaid rheoli biowastraff mewn modd integredig ledled Cymru, waeth beth fo'i darddiad. Rydym eisoes yn rhoi cymorth cyfalaf i ddatblygu rhwydwaith o gyfleusterau treulio anerobig ledled Cymru a fydd yn gallu derbyn gwastraff bwyd o bob ffynhonnell. Bydd y Cynllun ar gyfer y Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd yn ymdrin â'r angen am seilwaith ychwanegol ar gyfer biowastraff, a bwriedir ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2010.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim am fod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru gomisiynu gwaith ar ddatblygu'r farchnad ar gyfer defnyddiau eilaidd yng Nghymru er mwyn ailsefydlu diwydiant gweithgynhyrchu trwy greu cynhyrchion gwerth uwch o ddefnyddiau gwastraff. **(Tudalen 34)**

Ymateb: **Derbyn**

Cynhaliwyd arolwg o farchnadoedd ar gyfer deunyddiau ailgylchu yng Nghymru eisoes sy'n nodi bod Cymru mewn sefyllfa gymharol dda o ran gallu dros ben ar gyfer y rhan fwyaf o ddeunyddiau ailgylchu (eilaidd) allweddol). Mae cynyddu'r cyflenwad o ddeunyddiau ailgylchu o safon er mwyn ateb y galw yn allweddol. Bwriedir ymdrin â'r mater hwn ymhellach yn y Cynllun ar gyfer y Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd (deunyddiau ailgylchu) a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2010.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim gan fod y camau gweithredu angenrheidiol eisoes wedi cael eu cymryd.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddwyn ynghyd yr holl faterion sy'n ymwneud â chyrchu bwyd yn lleol i wneud trefniadau caffael diwygiedig ar gyfer y sector cyhoeddus. **(Tudalen 35)**

**Ymateb:** Mae’r Llywodraeth wedi gohirio ei phenderfyniad.

Mae’r Gweinidogion yn barod i ymgymryd â gwaith pellach i weld a oes cyfiawnhad dros yr argymhelliad.

Mae Gwerth Cymru wedi bod yn gweithio gyda FFMDD a'r sector cyhoeddus ehangach ar faterion caffael bwyd. Mae pob sector wedi’i gynrychioli ar Grŵp Bwyd Gwerth Cymru, sy'n rhoi llwyfan arall i rannu a chydweithredu ac sy'n goruchwylio'r contract Hylendid Bwyd a'r canllawiau arfer gorau a geir yn y Cynlluniwr Siwrnai Caffael Bwyd, a geir ar y wefan Gaffael Genedlaethol.

Mae'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru wedi cytuno ar Gynllun Cyrchu i Gymru Gyfan sy'n cwmpasu pob categori o wariant gan gynnwys bwyd. Yn y dyraniad ar gyfer nwyddau, nodwyd bod bwyd yn un o’r categorïau o wariant sy'n cael ei gaffael fwyaf effeithiol yn rhanbarthol ac yn ôl sector. Mae caffael Bwyd y GIG yn cael ei gydgysylltu gan Gyflenwadau Iechyd Cymru a Llywodraeth Leol drwy Gonsortia Prynu De a Gogledd Cymru. Mae'r Sector Addysg hefyd yn caffael drwy Gonsortia.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol eisoes yn nodi mesurau i gynyddu faint o fwyd lleol a brynir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cyrff cyfrifol yn cynnwys Gwerth Cymru, FFMDD, Awdurdodau Lleol/CLlLC a Cyswllt Ffermio. Yr amcanion yw:

- Annog y sector cyhoeddus i gyrchu mwy o fwydydd a diodydd lleol
- Datblygu'r sylfaen cyflenwi i fodloni gofynion y sector cyhoeddus
- Adolygu cadwyni cyflenwi
- Annog dosbarthwyr i stocio mwy o fwyd lleol
- Ymgysylltu â thyfwyr lleol er mwyn annog y defnydd o ffrwythau a llysiau ffres sy'n anaddas ar gyfer y farchnad fanwerthu
- Sicrhau lefelau uchel o ddiogelwch a hylendid bwyd.

Yng ngoleuni argymhelliad y Pwyllgor byddwn yn ystyried y dystiolaeth i weld a ellir gwneud gwelliannau.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog datblygiad biomas a gyrchir yn fwy lleol er mwyn darparu ynni adnewyddadwy ar gyfer eiddo unigol a chynlluniau gwresogi ardaloedd unigol. **(Tudalen 36)**

**Ymateb:** Derbyn

Fel y nodwyd yn 'Chwyldro Carbon Isel – Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru' rydym yn hollol ymrwymedig i hyrwyddo'r cyflenwad lleol o fiomas tra'n atal effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a diogelwch bwyd. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn darparu, ar ein rhan, y Cynllun Busnes Ynni Coed (WEBS 2) sef cynllun gwerth £17 miliwn gyda £7 miliwn o arian Cydgyfeirio a Chystadleurwydd yr UE i gefnogi gwresogi biomas a gosodiadau gwres a phŵer cyfunedig yn ogystal â gweithgarwch y gadwyn cyflenwi. Mae gan y prosiect darged o greu 24 o swyddi uniongyrchol, yn bennaf yn y gadwyn cyflenwi tanwydd, ond hefyd yn y gadwyn cyflenwi cyfarpar a chynnal a chadw systemau. Dylid nodi i asesiad o gylch blaenorol o WEBS (gyda chyllid tebyg) amcangyfrif bod rhwng 60 a 70 o swyddi wedi cael eu sicrhau mewn gwirionedd o ganlyniad i'r cyllid. Hefyd, mae'r Prosiectau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Gymunedol, a elwir bellach yn Ynni'r Fro, yn defnyddio cyllid Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a fydd yn cynorthwyo gwaith dichonolrwydd ar gyfer prosiectau ynni coed ar raddfa gymunedol.

Yn unol â Chymru'n Un yn ystod yr adolygiad Echel II ystyriwyd y potensial i ddatblygu cynllun grant i drosi cnydau ynni. O ganlyniad penderfynwyd y câi Coetiroedd Gwell i Gymru a Glastir eu defnyddio i helpu perchnogion coetiroedd preifat i reoli eu coetiroedd mewn ffordd gynaliadwy er mwyn

cyflwyno deunydd biomas ochr yn ochr â chynhyrchion coed eraill a darparu biomas ar gyfer prosiectau gwresogi lleol.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn parhau i reoli ein Hystad Coetiroedd mewn ffordd gynaliadwy ac optimeiddio prosesau adfer deunydd biomas ar gyfer ynni a defnyddiau eraill. Bwriedir rhoi ffocws penodol ar gynyddu faint o ddeunydd a gaiff ei adfer a faint o docion â gwerth isel, deunydd marw a deilliannau eraill a gaiff eu gwerthu, deunyddiau nad oedd iddynt farchnad yn hanesyddol.

Rydym yn cefnogi gwaith gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Phartneriaeth Ynni De-ddwyrain Cymru i gynyddu faint o fiomas lleol a gyrchir mewn ffordd gynaliadwy.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithio gyda rhaglen adfywio strategol Blaenau'r Cymoedd, gan ystyried yn benodol opsiynau ar gyfer rheoli coetiroedd lleol yn well. Y bwriad yw nid yn unig annog perchnogion coetiroedd i ddarparu ffynonellau ychwanegol o danwydd coed cynaliadwy, ond hefyd manteisio i'r eithaf ar y coetiroedd ar gyfer hamddena ac fel cynefin bywyd gwyllt. Mae'r gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar nodi safleoedd â blaenoriaeth ar gyfer ymyriad.

Mae prosiect arall ar gyfer casglu a defnyddio coed lleol wedi cael ei gomisiynu gan Bartneriaeth Ynni De-ddwyrain Cymru (SEWEP), sef grŵp o 6 o Awdurdodau Lleol: Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a nifer o bartneriaid gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Amcan SEWEP yw gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran lleihau ôl troed carbon y rhanbarth drwy weithgareddau a phrosiectau sy'n gweithredu ein polisi ynni.

Bydd y prosiect yn nodi pren newydd sy'n deillio o weithrediadau Awdurdodau Lleol gan gynnwys gweithgareddau priffyrdd a chynnal a chadw parciau, a gweithgareddau rheoli coetiroedd. Bydd hefyd yn gweithio gyda'r Timau Datblygu Gwledig o fewn Awdurdodau Lleol a Tanwydd Coed Cymru i helpu i ddatblygu rhwydwaith o ffermwyr / tirfeddianwyr i ategu'r gadwyn cyflenwi coed.

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn dod yn un o'r partneriaid yn y gwaith hwn, gan gyhoeddi canfyddiadau ei astudiaeth o goetiroedd yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Dylai gweithredu ar y cyd yn seiliedig ar goetiroedd Awdurdodau Lleol a choetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth arwain at arbedion maint ar gyfer gweithgareddau megis caffael cyfarpar, contractio ar gyfer cymynu a chludo, hyfforddiant ac ati.

Yn ogystal â chynhyrchu coed sy'n addas ar gyfer biomas, bydd gweithgareddau rheoli coetiroedd Awdurdodau Lleol hefyd yn cynhyrchu cryn dipyn o goed sy'n addas at ddibenion adeiladu a gweithgynhyrchu. Caiff hwn ei ddidoli a'i raddio ar gyfer cladin pren allanol, coed glas wedi'i dorri a gweithgynhyrchu coed tân.

Caiff gwersi a ddysgir o'r fenter hon eu trosglwyddo i awdurdodau lleol ledled Cymru.

Rydym yn ceisio annog cyrchu lleol, a datblygu'r gadwyn gyflenwi leol, ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy mewn Ardaloedd Adfywio.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim gan fod y gwaith cyfredol yn cael ei ariannu gan yr awdurdodau lleol yn SEWEP, gyda chymorth y Comisiwn Coedwigaeth, a thrwy gyllideb rhaglen y Cynllun Datblygu Gwledig.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu i hybu prototeip/tai arddangos Tŷ Unnos er mwyn eu defnyddio'n ehangach yng Nghymru. **(Tudalen 36)**

**Ymateb:** Derbyn

Rydym wedi cefnogi ac wedi hyrwyddo'r system Tŷ Unnos a byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i barhau â'r gefnogaeth honno.

Mae cymorth wedi cynnwys gwahoddiad i arddangos y cynnyrch yn yr Arddangosfa Tai Gwyrddach yn Llanfair-ym-Muallt a chymorth drwy Bartneriaeth Busnesau Coedwigoedd Cymru a arweinir gan y Comisiwn Coedwigaeth. Yn 2009 cyfarfu'r datblygwyr â'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio yn yr arddangosfa.

Ar 4 Awst 2010, agorodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai y ganolfan ymwelwyr Tŷ Unnos fel rhan o lansio Cartrefi Cymru'r Dyfodol ar yr hen safle gwaith dur, Glynebwy.

Yn sgîl y diddordeb yn y cynnyrch fel ateb i'r sector tai cymdeithasol mae Cymdeithas Tai Clwyd yn y Gogledd wedi adeiladu pedwar cartref â thair ystafell wely gan ddefnyddio'r system Tŷ Unnos sydd wedi cael ei datblygu ymhellach ar y cyd ag Elements Europe, sef cwmni sy'n arbenigo mewn Dulliau Adeiladu Modern, er mwyn dangos ffordd fodiwlar o ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r cynllun yn un o'r 22 o Brosiectau Peilot sy'n cael arian grant gan y Cynulliad (Grant Tai Cymdeithasol) i ystyried goblygiadau adeiladu i lefelau uwch o'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy (lefelau 4 a 5). Caiff ei fonitro fel rhan o'r prosiect cod 4/5 a ddatblygwyd i helpu i lywio polisi ar ddatblygu tai i safonau cynaliadwyedd uwch a'r broses o ddatblygu safonau ynni newydd i'w hymgorffori yn Rheoliadau Adeiladu Cymru.

Bydd adroddiadau ar y prosiectau peilot ar gael ar borth gwe grŵp Cymru Carbon Isel/Di-garbon i sicrhau y caiff y canlyniadau eu lledaenu'n eang.

Hefyd, mae Gwerth Cymru yn ystyried y potensial i hyrwyddo'r defnydd o'r system Tŷ Unnos drwy'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a'r Grŵp Gorchwyl Caffael Tai ac Adfywio.

Defnyddiwyd cyllid Ardaloedd Adfywio i gyflwyno'r cysyniad Passivhaus i safle'r Gweithfeydd yng Nglynebwy fel rhan o Barth Carbon Isel Blaenau'r Cymoedd, a chafodd y prosiect ei arddangos yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim, mae'r gwaith yn cael ei wneud o fewn rhaglenni presennol Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru bennu targedau mwy uchelgeisiol i annog y sector cyhoeddus yng Nghymru i ystyried materion gwyrdd yn eu trefniadau caffael. Byddai hyn yn cynnwys targedau creu swyddi, cynyddu sgiliau'r gweithlu, ac annog a hybu busnesau Cymru, yn enwedig BBaChau, i ddarparu nwyddau a gwasanaethau gwyrdd i'r sector cyhoeddus. **(Tudalen 37)**

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor
Os bydd Gweinidogion yn dymuno pennu targedau polisi, byddai'n rhaid ystyried y rhain yn fanwl a phennu llinellau sylfaen.

Mae Rhaglen Caffael Cynaliadwy Gwerth Cymru wedi hyrwyddo caffael gwyrdd drwy nifer o brosiectau, canllawiau ac offer. Mae'r Rhaglen yn rhan annatod o Bolisi Caffael y Sector Cyhoeddus a hyrwyddir gan Gwerth Cymru. Conglfaen y polisi hwn yw "Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig" a'r canllawiau cysylltiedig ar Fuddiannau Cymunedol, gweithio gyda'r Trydydd Sector ac ymgysylltu â Busnesau a Gynorthwyir.

Mae'r Prosiectau, y canllawiau a'r offer a ddatblygwyd gan Gwerth Cymru wedi cael eu llunio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ynghyd â chynrychiolwyr o'r TUC, y byd academaidd a'r proffesiwn cyfreithiol. Mae’r rhain yn cynnwys.

***Y Wefan Gaffael Genedlaethol***, sy'n helpu i gynnig cyfleoedd i gyflenwyr bach

***Rhaglen cyfnewidcymru,*** sydd wedi'i hanelu at helpu'r sector cyhoeddus i fasnachu â'r sector preifat drwy ddefnyddio prosesau electronig.

***Y Prosiect Dadansoddiad o Wariant****,* sy'n ategu Adnewyddu’r Economi: cyfeiriad newydd sy'n defnyddio data caffael i nodi'r hyn a elwir yn "fylchau mewn cyflenwad" h.y. meysydd cynnyrch a gwasanaethau, lle mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn prynu y tu allan i Gymru ar hyn o bryd ond lle ceir cwmnïau yng Nghymru a allai gystadlu am y busnes o bosibl.

***Prosiect Chwalu Rhwystrau i Gyfleoedd Caffael****,* sy'n helpu i symleiddio a safoni'r broses cyn cymhwyso a gwneud cyfleoedd caffael â gwerth is yn fwy tryloyw.

***Prosiect Buddiannau Cymunedol***, sydd wedi'i anelu at ymgorffori'r defnydd o gymalau cymdeithasol ym mhob contract adeiladu a gwasanaeth mawr.

Er mwyn cefnogi'r gweithgareddau hyn, mae Gwerth Cymru wedi datblygu cwrs Hyfforddiant Caffael Cynaliadwy sy'n cynnig canllawiau a chymorth ymarferol i'r rhai sy'n ymwneud â chaffael fel y gallant sicrhau bod cynaliadwyedd yn fater allweddol yn y broses gaffael.

Ceir gwybodaeth am yr uchod, ynghyd â chanllawiau cyffredinol ar arfer caffael da ar y Cynlluniwr Siwrnai Caffael, ar wefan www.prynwchigymru.co.uk

O dan faner *arbed*, mae Adeiladu Cymru yn trefnu digwyddiad "Cwrdd â'r Prynwr" i ddod â'n prif gontractwyr ynghyd â'r BBaChau.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, gan fod y gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd o fewn rhaglenni presennol Gwerth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Fodd bynnag, os pennir targedau, efallai y bydd yn rhaid comisiynu ymchwil i bennu llinellau sylfaen, a darparu adnoddau ychwanegol er mwyn cyflwyno newid yn gynt.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adeiladu ar ei chynlluniau diweddaraf ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol trwy geisio manteisio i'r eithaf ar gyfraniad posibl mentrau cymdeithasol i'r economi werdd, ac y dylai ddyrannu adnoddau yn unol â hynny. (**Tudalen 38)**

Ymateb: **Derbyn**
Cydnabyddir y rôl bwysig y gall menter gymdeithasol ei chwarae o ran creu swyddi gwyrdd ac fe'i hadlewyrchir yn ein Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd.

Felly rydym yn cefnogi'n llwyr ysbryd yr argymhelliad hwn, sy'n gyson â Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cynulliad, sy'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer Cymru gynaliadwy, a hefyd Gynllun Gweithredu Menter Gymdeithasol 2009. Mae llawer o grwpiau cymunedol eisoes yn cymryd camau i fod yn fwy cynaliadwy ac yn achub ar gyfleoedd nid yn unig i leihau eu hôl troed carbon ond hefyd i ddatblygu sgiliau mewn hunanddibyniaeth, gan sefydlu prosiectau sy'n ymwneud â bwyd, ynni trafnidiaeth a dŵr. Mae hyn yn aml yn golygu bod y grwpiau yn symud o ddibyniaeth ar grantiau i gynhyrchu incwm a thrwy hynny'n sefydlu eu hunain yn fentrau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys llawer o gymunedau sydd wedi edrych i'r llywodraeth am grantiau yn draddodiadol, ond bellach maent yn ystyried cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach neu sgiliau arbed ynni i helpu i ddatblygu sgiliau a chynhyrchu incwm a thrwy hynny eu galluogi i gymryd mwy o ran yn yr economi werdd.

Mae ein hadroddiad ‘Mapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru: deall er mwyn dylanwadu' yn dangos bod tua 14% o fentrau cymdeithasol yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau'r Economi

Werdd. Fodd bynnag, mae llawer o fentrau cymdeithasol eraill yn ceisio cyflawni 'effaith driphlyg' drwy greu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar yr un pryd.

Rydym yn darparu £15m o arian yr UE i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol drwy'r rhaglen Ynni'r Fro. Bydd Ynni'r Fro yn ei gwneud yn bosibl i 22 o fentrau cymdeithasol gael eu sefydlu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol. Mae pedwar prosiect cymunedol mawr a lwyddodd i sicrhau bron £2m o grantiau gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd o dan yr Her Cymunedau Carbon Isel yn arwain y ffordd o ran datblygu sgiliau ar gyfer bywyd carbon isel pobl leol.

Mae prosiectau eraill yng Nghymru wedi cael cymorth drwy ddyfarniad o dan Her Werdd Fawr NESTA ac mae hyn yn arwydd o'r diddordeb mawr a'r awydd i arloesi ymhlith mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol yng Nghymru er mwyn arwain y ffordd o ran cymryd rhan yn yr economi werdd.

Ymhlith y rhai sydd ar eu hennill mae cymunedau sydd, yn draddodiadol, yn profi anfantais, ond sydd bellach yn gallu gweld ffordd o gynhyrchu eu hynni gwyrdd eu hunain a'u ffrwd incwm eu hunain ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn gosodiadau ynni adnewyddadwy, cynnal a chadw gosodiadau, cyfarparu cartrefi, a chyflawni prosiectau inswleiddio ymhlith rhai o'r enghreifftiau o ymateb cymunedau i fentrau carbon isel y mae angen cymorth a symbylu pellach arnynt.

Rydym yn cefnogi rhwydweithio a datblygu sgiliau ymhlith grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i achub ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, rydym yn darparu arian i Cylch, sef Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru. Mae Cylch yn rhoi cymorth i dros 60 o sefydliadau sy'n aelodau ac sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ailddefnyddio, ailgylchu, compostio a lleihau gwastraff ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, gan fod Ynni'r Fro yn cael dros £7 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 20.** Wrth i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithredu ei rhaglen adnewyddu economaidd, rydym yn argymell y dylai roi pwyslais ar ysgogi a chefnogi busnesau newydd a chwmnïau deillio Cymreig yn yr economi werdd a chynnwys mesurau ar gyfer gwneud hynny. Hefyd, dylai sicrhau bod cwmnïau o Gymru'n masnacheiddio gwaith ymchwil a datblygu a wneir ym Mhrifysgolion Cymru lle bo modd. **(Tudalen 40)**

**Ymateb:** Derbyn

**Mae Ynni a'r Amgylchedd yn un o'r chwe sector â blaenoriaeth a nodwyd gan Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd. Mae'r polisi yn cefnogi buddsoddi yn y maes hwn ac, ar ôl iddo gael ei sefydlu, bydd y panel sector annibynnol yn pennu blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad**

**pellach gan AETh. Bydd y panel hwn yn rhoi cyngor annibynnol ac, felly, ni ellir gwarantu y bydd y panel sector yn argymell y cymhellion a ddisgrifir.**

Rhaglen ymchwil a datblygu gydweithredol yw “SCriPT Llwyfan Gwasanaethau Adeiladu Cynaliadwy" ac fe'i rheolir gan Brifysgol Caerdydd gyda chonsortiwm o fwy nag 20 o fusnesau, gan gynnwys Mott McDonald, Laing O'Rouke, Corus, Arup a BRE. Bydd SCriPT yn gwella cystadleurwydd cwmnïau adeiladu yng Nghymru ac yn gwella eu parodrwydd a'u gallu i gynnig atebion carbon isel arloesol i fodloni diwygiadau diweddar ac arfaethedig i'r rheoliadau adeiladu. Bydd SCriPT yn parhau tan 31 Hydref 2012.

Mae “Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd” yn rhoi cyfle i dargedu cymorth yn fwy effeithiol yn y dyfodol ar gyfer prosiectau o'r fath drwy gydweithio'n agos â'r tîm sector Ynni a'r Amgylchedd newydd er mwyn sicrhau y caiff prosiectau sy'n diwallu anghenion penodol yr 'economi werdd' yng Nghymru eu cefnogi.

Mewn ymateb i adolygiad annibynnol 2007 o weithgareddau masnacheiddio a ariannwyd yn gyhoeddus yng Nghymru, "Commercialisation in Wales", o dan gadeiryddiaeth Simon Gibson, rydym eisoes wedi rhoi nifer o fesurau ar waith gan gynnwys penodi staff masnachol gan Sefydliadau AU ar y cyd, a sefydlu paneli cynghori arbenigol ym mhob Sefydliad AU. Fel rhan o'n strategaeth ar gyfer system Addysg Uwch ar gyfer yr 21ain Ganrif, "Er mwyn Ein Dyfodol", rydym wedi gofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ystyried opsiynau pellach ar gyfer cefnogi mwy o gydweithredu rhwng prifysgolion a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Y nod yw creu agendâu ymchwil ar y cyd a ffyrdd eraill o gyflymu'r broses o fanteisio ar ymchwil newydd a chyfredol gan ystyried gweithgareddau masnacheiddio yn y dyfodol.

At hynny, rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2010 cadeiriodd y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau Adolygiad Ymchwil a Datblygu a gyfrannodd at y Rhaglen Adnewyddu’r Economi a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf 2010. Mae'r Adroddiad yn argymell camau y gellir eu cymryd i wella perfformiad ymchwil a chynyddu lefel incwm ymchwil yng Nghymru, yn enwedig o ran ymdrin â'r buddsoddiad cymharol isel mewn Ymchwil a Datblygu ym maes busnes, a chyfleoedd i fusnesau a'r sector AU gydweithredu.

Mae sawl ffordd y gall busnesau yng Nghymru fanteisio ar dechnolegau newydd a syniadau arloesol o Brifysgolion, drwy'r Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) sefydledig, neu'r gwahanol ddulliau a gefnogir gan y rhaglen A4B megis Canolfannau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTC), Prosiectau Cyfnewid Gwybodaeth (KEP) neu Brosiectau Ymchwil Diwydiannol Cydweithredol (CIRP).

**Goblygiadau Ariannol -** Nid oes unrhyw ofynion ariannol ychwanegol. Caiff prosiectau eu hariannu a'u rheoli gan y Tîm Arloesi o'r cyllidebau presennol ar hyn o bryd ond mae arian ar gyfer y dyfodol yn cael ei adolygu fel rhan o

Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd. Cytunwyd ar weithgarwch mewn perthynas ag "Er mwyn Ein Dyfodol" fel rhan o gyflwyniadau blaenorol i Weinidogion. Ariennir y buddsoddiad a wnaed fel rhan o'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel (LCRI) drwy arian cydweithredu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a chytunwyd arno eisoes gan y partïon dan sylw.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 21.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ganolbwyntio'i hadnoddau ar gefnogi mentrau busnes lleol mewn meysydd fel ynni'r môr neu ficrogynhyrchu lle y mae gobaith o hyd i Gymru ddatblygu diwydiant a all gystadlu'n fyd-eang. **(Tudalen 42)**

**Ymateb:** Derbyn
Mae Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd yn amlinellu ymagwedd sectoraidd lle bydd AETh yn canolbwyntio ar chwe sector gan gynnwys Ynni a'r Amgylchedd. Bydd y paneli sector yn rhoi arweiniad i AETh ynglŷn â’r ffordd orau y gall Llywodraeth y Cynulliad ychwanegu gwerth, a all olygu gweithio ar lefel cwmni unigol neu drwy fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y sector yn ei gyfanrwydd.

Yn ein Strategaeth Ynni Carbon Isel ar gyfer 2010 rydym yn ymrwymo i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau byrdymor a hirdymor symud i system ynni carbon isel i economi a chymdeithas Cymru. Mae rhai o'r mesurau a nodwyd i gyflawni hyn yn cynnwys:

- Manteisio ar fuddiannau buddsoddiadau newydd o ran swyddi lleol a hyrwyddo cyfleoedd swyddi a hyfforddiant lleol sy'n gysylltiedig â'n buddsoddiadau mawr mewn effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni lleol;
- Cynnig cyfryngau â ffocws penodol (megis academi Glynebwy Nwy Prydain) ar gyfer datblygiadau busnes a sgiliau cysylltiedig;
- Hyrwyddo cadwyni cyflenwi yng Nghymru i ateb y galw am y technolegau newydd a'r buddsoddiadau ynni ar raddfa fawr a nodwyd yn y datganiad hwn;
- Cefnogi'r potensial i'n prif borthladdoedd a'r ardaloedd o'u hamgylch ddarparu gwasanaethau logisteg a chynnal cyfleusterau gweithgynhyrchu/cydosod;
- Cefnogi buddsoddiad busnes mewn carbon isel drwy'r Ymddiriedolaeth Garbon a gwasanaethau cymorth busnes AETh;
- Annog busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y tariff cyflenwi trydan a'r cymhelliant ar gyfer gwres adnewyddadwy i fuddsoddi mewn ynni carbon isel;
- Helpu diwydiannau i ymateb, megis drwy'r Ganolfan Carbon Isel ar gyfer adeiladu a gwaith gyda'r diwydiannau sydd â defnydd dwys o ynni yng Nghymru;
- Cydweithio'n agos â diwydiant a rhai eraill â diddordeb drwy Fforwm Ynni newydd i Gymru;

- Hyrwyddo masnacheiddio technolegau newydd gan gynnwys drwy waith a wneir yn Sefydliad Ymchwil Carbon Isel Cymru a deorfeydd Technium;
- Hyrwyddo cyfleoedd ymchwil a datblygu ar draws nifer o opsiynau adnewyddadwy ac mewn datblygiadau carbon isel newydd;
- Cefnogi twf cwmnïau ynni adnewyddadwy yng Nghymru ymhellach - gyda chwmnïau fel Infinigy, Windpower Wales, Quiet Revolution, Dulas ac ECO2 eisoes yn dangos y ffordd;
- Cysylltu buddsoddiadau ag adfywio ac adnewyddu cymunedol gan alluogi unigolion a chymunedau i fod yn fwy hunangynhaliol.

Mae'r buddiannau economaidd posibl sy'n deillio o fod ar flaen y gad o ran newid i garbon isel eisoes wedi cael eu nodi yn yr ymgynghoriad ar Strategaeth Swyddi Gwyrdd Cymru, Strategaeth Diwydiannol Carbon Isel newydd Whitehall ac adroddiadau diweddar ar ddatblygiad y sector ynni a thrafnidiaeth gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gan fod Ynni a'r Amgylchedd yn un o'r chwe sector â blaenoriaeth a nodwyd gan *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd,* mae'r polisi yn cefnogi buddsoddiad yn y maes hwn ac, ar ôl iddo gael ei sefydlu, bydd y panel sector annibynnol yn pennu blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad pellach gan AETh. Bydd y panel sector hwn yn rhoi cyngor annibynnol ac, felly ni ellir gwarantu y bydd y panel sector yn argymell y cymhellion a ddisgrifir.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol na chyfrifwyd amdanynt i Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wrth dderbyn yr argymhelliad hwn. Caiff unrhyw oblygiadau ariannol eu hystyried hefyd fel rhan o ddatblygu 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' a chaiff cyngor pellach ei geisio yn eu cylch.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 22.** Rydym yn argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru feithrin cysylltiad â sefydliadau addysg uwch sy'n gweithio ym meysydd ynni'r môr a microgynhyrchu er mwyn masnacheiddio'r technolegau hynny. (**Tudalen 42)**

**Ymateb:** Derbyn

Gweler yr ymateb i argymhelliad 20.

Mae ein polisi o ran sector Addysg Uwch ar gyfer yr 21ain Ganrif yng Nghymru yn datblygu gweithgarwch sy'n ymwneud â masnacheiddio gweithgareddau ymchil a datblygu. Mae buddsoddiad mwy penodol eisoes yn cael ei wneud fel rhan o'r buddsoddiad drwy'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel (LCRI) sydd wedi'i anelu at gefnogi gweithgarwch ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig ag economi carbon isel yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r

buddsoddiad hwn yn cefnogi pob math o fentrau cydweithredol yn y sector Addysg Uwch o dan amrywiaeth o dechnolegau gwyrdd newydd.

**Goblygiadau Ariannol** - Nid oes unrhyw ofynion ariannol ychwanegol. Cytunwyd ar weithgarwch mewn perthynas ag "Er mwyn Ein Dyfodol" fel rhan o gyflwyniadau blaenorol i Weinidogion. Ariennir y buddsoddiad a wnaed fel rhan o'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel (LCRI) drwy arian cydweithredu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a chytunwyd arno eisoes gan y partïon dan sylw.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 23.** Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal ati i lobïo am ddatganoli pwerau pellach ym maes ynni fel y bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau am brosiectau ynni dros 50MW. **Tudalen 44)**

**Ymateb:** Derbyn

Mae ynni yn fater a gadwyd yn ôl ar y cyfan ym Mhrydain Fawr, hynny yw, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw yn bennaf, mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion yr Alban bwerau gweithredol i roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd ynni mawr o dan Adran 36 (A36) ac ati o'r Ddeddf Trydan. Rydym wedi gofyn am ddatganoli gweithredol tebyg o ran pwerau A36 ac ati ond mae'r cais hwn wedi cael ei wrthod yn rheolaidd dros y pum mlynedd diwethaf.

Nid oes angen caniatâd A36 ac ati ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir sy'n cynhyrchu 50 MW neu lai. Yr awdurdod cynllunio lleol (ACLl) sy'n penderfynu ar orsafoedd ynni o'r fath o dan y drefn cynllunio gwlad a thref, gydag unrhyw apêl/achos o alw i mewn yn fater i Weinidogion Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru.

Ymgynghorir yn ffurfiol â Llywodraeth y Cynulliad ar bob un o'r cyfryw geisiadau, ynghyd â'r awdurdod lleol (ALl) perthnasol, ac os yw'r ALl hwnnw yn gwrthwynebu'r cais rhaid cynnal ymchwiliad cyhoeddus.

Gall Gweinidogion Cymru hefyd roi caniatâd ar gyfer prosiectau ar y môr, o fewn ein dyfroedd tiriogaethol, o dan bwerau'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith Cyffredinol.

Yn aml bydd hefyd angen trwyddedau'r Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd a chaniatâd Deddf Amddiffyn y Glannau ar brosiectau ar y môr, a roddir gan Weinidogion Cymru o fewn dyfroedd tiriogaethol (ac eithrio mewn materion sy'n ymwneud â chwilio am betrolewm neu ei gynhyrchu, neu faterion sy'n deillio o hynny). Mae'r rhan fwyaf o brosiectau ar y môr hefyd yn gofyn am brydlesau Ystad y Goron sy'n ymwneud â gwaelod y môr.

Mae angen trwydded gan yr Awdurdod Glo yn ogystal â chaniatadau cynllunio'r awdurdod lleol ar gyfer cloddio am lo mewn pyllau glo cyfredol neu segur ar gyfer unrhyw safleoedd ar y tir. Mater i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yw rhoi trwyddedau ar gyfer storio carbon tanfor neu bibellau CO2 cysylltiedig.

Ers mis Ebrill 2010, bu caniatadau a roddir yng Nghymru fel arfer yn fater i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (y Comisiwn) benderfynu arno ar gyfer prosiectau gorsafoedd ynni mawr (mwy na 50MW ar y tir a 100MW ar y môr) a seilwaith ynni mawr (gan gynnwys pibellau nwy a'r grid trydan), ond nid terfynefydd nwy ar y tir. Fodd bynnag, wrth wneud y penderfyniadau hyn, bydd yn rhaid i'r Comisiwn benderfynu ar y ceisiadau yn unol ag unrhyw Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol y DU (NPSs) oni fydd rhai amgylchiadau penodol yn gymwys. Paratoir yr NPSs hyn gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Roeddem yn ymgynghorai statudol ar ddrafftio'r NPSs.

Bydd yr NPSs, fel pob dogfen bolisi newydd o bwys sy'n cynnwys elfen cynllunio gofodol, yn destun asesiad amgylcheddol strategol cyffredinol. Byddwn ni a nifer o'r corff a noddir gennym (e.e. Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd) yn ymwneud ag unrhyw agweddau sy'n ymwneud â Chymru. Bydd Mesur Datganoli a Lleolaeth Llywodraeth Glymblaid y DU yn gwneud newidiadau mawr i'r ffordd y mae'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn gweithredu, ond caiff egwyddor yr NPSs ei chadw.

Ar hyn o bryd mae gennym nifer o bwerau gweithredol a dyletswyddau a all fod yn berthnasol i ganiatadau prosiectau. Yn aml, mae prosiectau ynni yn gofyn am asesiadau o'r effaith amgylcheddol, asesiadau priodol mewn ardaloedd amgylcheddol sensitif a gwmpesir gan Gyfarwyddebau Cynefinoedd a Ramsar, trwyddedau amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, caniatadau cynllunio ar gyfer gwaith cysylltiedig fel is-orsafoedd, caniatadau trafnidiaeth, ac yn cynnig cyfleoedd o ran cadwyn gyflenwi, datblygu economaidd ac arloesi (gan gynnwys grant WEFO, a chymorth yr Arolygiaeth Pysgodfeydd Môr a chymorth Cyllid Cymru), caniatadau o dan y Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd ar gyfer gweithrediadau morol ac ati. Mae i ba raddau y datganolwyd pob un o'r meysydd hyn yn gymhleth, ond yn aml bydd gan Weinidogion swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â'r cyfryw faterion, boed fel y prif wneuthurwr penderfyniadau, y corff apelio neu mewn rhyw swyddogaeth oruchwylio arall.

Mae gennym hefyd bwerau sylweddol sy'n berthnasol i gyflawni agweddau ehangach ar economi carbon isel fel cyfrifoldebau am drafnidiaeth, datblygu economaidd, sgiliau ac addysg, tai, adfywio a llywodraeth leol.

Rydym yn defnyddio ein holl bwerau - gan gynnwys pwerau cynllunio, trafnidiaeth, datblygu economaidd, diogelu'r amgylchedd a thai - i gefnogi ei pholisi ynni carbon isel a chydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a'r rheoleiddiwr, OFGEM, er mwyn sicrhau y caiff ei adlewyrchu yn ein penderfyniadau.

Credwn o hyd ei bod yn anghyson bod caniatadau ar gyfer gorsafoedd ynni mawr wedi'u datganoli'n weithredol i'r Alban ond nid i Gymru. Parhawn i weithio'n gadarnhaol gyda'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ac eraill i hwyluso datblygiadau ynni priodol yng Nghymru.

Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Thai wedi codi mater trosglwyddo caniatadau ynni gyda Chris Huhne, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd. Mae hefyd wedi cyfarfod â Greg Clarke yn yr Adran Cynllunio a Llywodraeth Leol yn ddiweddar i esbonio er ein bod yn cefnogi'n llwyr y broses symleiddio a phroses gwneud penderfyniadau effeithlon, o ystyried hyd a lled ein huchelgeisiau o ran polisi wrth gyflawni economi carbon isel i Gymru, y credwn fod penderfyniad cadarnhaol ar drosglwyddo caniatadau ynni yn hanfodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol na chyfrifwyd amdanynt i Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wrth dderbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 24.** Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio ag awdurdodau lleol a datblygwyr ynni i sicrhau bod y cwmnïau hynny'n dilyn yr arferion gorau o ran ymgysylltu â chymunedau lleol ar geisiadau ynni adnewyddadwy. **(Tudalen 44)**

**Ymateb:** Derbyn

**Ymgynghoriad Ffurfiol ag Awdurdodau Lleol**

*Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith*

Mae ein swyddogion yn rhoi pwyslais mawr ar gynghori datblygwyr ynglŷn â phwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau ar gam cynnar o'r broses rhoi caniatâd ar gyfer prosiectau ynni. Fel ymgynghorai statudol o dan broses y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, rydym yn helpu i sicrhau bod datblygwyr yn ymgynghori â chymunedau lleol ynglŷn â'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud. Mae'r ceisydd yn paratoi Datganiad am Ymgysylltu â'r Gymuned (SOCC) er mwyn penderfynu sut y bydd yn ymgynghori â'r gymuned leol cyn y cais. Anfonir y SOCC i'r awdurdod lleol am ei sylwadau ac i benderfynu a yw'r ymgynghoriad yn ddigon cadarn. Mae'n rhaid i'r ceisydd ystyried sylwadau'r awdurdod lleol ac yna gynnal yr ymgynghoriad â'r gymuned leol fel y'i nodwyd yn y SOCC.

Ar ôl i'r broses o ystyried y cais ddechrau, gwahoddir yr awdurdod (neu awdurdodau) lleol perthnasol i baratoi Adroddiad Effaith Leol (LIR) ar effeithiau tebygol y datblygiad ar yr ardal leol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod yr un lefel o ymgynghoriad yn gymwys i ba gyfundrefn bynnag y bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu ei sefydlu yn lle'r Comisiwn.

*Nodyn Cyngor Technegol ar Ynni Adnewyddadwy (TAN8)*

Mae TAN8 yn ceisio hwyluso ynni adnewyddadwy drwy'r system gynllunio gan sicrhau bod y fframwaith polisi yn briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau amserol a rhesymol ar geisiadau cynllunio. Dylid nodi bod awdurdodau cynllunio lleol yn gyrff gwneud penderfyniadau annibynnol ac efallai na fydd "un ateb i bawb" o ran ymgysylltu â’r gymuned gan y gall anghenion cymunedau amrywio ledled Cymru, felly hefyd ofynion arbennig cynlluniau ynni adnewyddadwy penodol.

Mae TAN8 yn gwneud datganiadau cadarnhaol am gynlluniau adnewyddadwy yn y gymuned ac mae'n cynnwys sawl astudiaeth achos sy'n dangos sut y gall cynlluniau ddatblygu gydag ymwneud cymunedau lleol, sy'n esiampl bosibl i gynlluniau eraill o ran ymgysylltu â'r gymuned.

Y llynedd, ysgrifennodd swyddogion at awdurdodau lleol yn rhoi canllawiau ar ymdrin â cheisiadau ar gyfer cynigion ffermydd gwynt. Parhawn i atgoffa awdurdodau cynllunio lleol o bwysigrwydd eu rôl o fewn eu hymrwymiadau cadarn ynglŷn â newid yn yr hinsawdd o ran galluogi datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol na chyfrifwyd amdanynt i Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wrth dderbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 25.** Rydym yn argymell y dylai adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio â'r Cynghorau Sgiliau Sector, sefydliadau addysg bellach a mentrau masnachol a chymdeithasol ar raglen i ganfod y mathau o sgiliau y mae angen amdanynt yn economi werdd ac economi garbon isel y dyfodol, gan ganolbwyntio ar anghenion lleol am sgiliau. Rydym yn argymell yn ogystal y dylid ymchwilio i'r cyfle a gynigir gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop i helpu i ariannu'r fenter hon. **(Tudalen 48)**

**Ymateb:** Derbyn

Rydym eisoes yn gweithio gyda rhwydwaith y Cynghorau Sgiliau Sector i gael gwybodaeth benodol am y materion sy’n ymwneud â sgiliau a fydd yn debygol o godi yn y dyfodol wrth i Gymru symud tuag at economi carbon isel. Mae ein buddsoddiad o dan y prosiect "Cyflwyno Sgiliau Carbon Isel" yn ei gwneud yn bosibl i'r gweithgarwch hwn ddigwydd. Rydym eisoes wedi cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer y rhaglen waith hon o dan Gynllun Peilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector. Bydd y prosiect "Cyflwyno Sgiliau Carbon Isel" nid yn unig yn rhoi gwybodaeth am anghenion sgiliau i Gymru yn y dyfodol, ond bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r Cynghorau Sgiliau Sector weithio'n uniongyrchol gyda darparwyr dysgu yng Nghymru i ddatblygu a chyflwyno mathau newydd o hyfforddiant yn y technolegau a'r arferion gwaith gwyrdd hynny sy'n gysylltiedig â Chymru carbon isel.

*Tai ac Adfywio*

Mae pob un o’n Hardaloedd Adfywio wedi sefydlu ffordd integredig a thrawsbynciol o ymdrin â mentrau sydd wedi'u hanelu at ddatblygu economaidd ac adfywio, ac yn enwedig y rhai sydd hefyd yn rhoi cymorth i unigolion mewn ardaloedd difreintiedig iawn. Yn yr ardaloedd hyn yr economi werdd a charbon isel yw'r dyfodol, yn ein barn ni, i helpu pobl leol i ddod o hyd i waith a'n bwriad yw sicrhau cyflogaeth yn y sector hwn drwy'r 'Strategaeth Swyddi Gwyrdd'. Felly rydym wedi gweithio gyda Nwy Prydain i ddatblygu 'Canolfan Sgiliau Gwyrdd’ sy'n cynnig ymagwedd hyblyg tuag at anghenion hyfforddiant y diwydiant sy'n rhan o'u cyfrifoldebau ehangach i gyflawni targedau lleihau carbon tra’n cynyddu'r defnydd o dechnoleg adnewyddadwy yn fwy cyffredinol. Lle y nodir bylchau mewn darpariaeth, mae'r Ganolfan yn gweithio gyda'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol i gyflymu'r broses o achredu hyfforddiant ar gyfer sgiliau adnewyddadwy. Maent hefyd yn gweithio gyda phartneriaid AB i ystyried cysylltiadau posibl rhwng y ganolfan arfaethedig a'u strategaethau ymchwil a datblygu.

Mae Rhaglen Blaenau'r Cymoedd hefyd yn sicrhau bod cyfleoedd sy’n deillio o ddatblygu ffisegol yn arwain at gyfleoedd hyfforddiant a recriwtio wedi'u targedu at bobl leol, sef un o ofynion craidd y 'Pecyn Cymorth Gallu Gwneud' a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrth helpu i gyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru.

Mae'r cysylltiadau allweddol â Busnesau Gwyrdd a sefydlwyd drwy'r fforwm Sgiliau Busnesau Gwyrdd yn ychwanegu gwerth at yr holl waith hwn. Mae'r grŵp a ariennir drwy raglen Blaenau'r Cymoedd ac a gynullir gan BitC yn cynnwys cwmnïau cynhenid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y sector ac mae'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth y Cynulliad i nodi anghenion sgiliau yn y dyfodol yn y sector a grëir drwy fuddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad ochr yn ochr â mentrau Llywodraeth y DU megis Tariffau Cyflenwi Trydan.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw ofynion ariannol ychwanegol. Mae'r Prosiect Cyflwyno Sgiliau Carbon Isel wedi ei gontractio o dan Raglen Beilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector fel rhan o linell gyllideb y Gronfa Datblygu Sector (BEL 4464 Datblygu'r Gweithlu, F28.51982) ac yn cael ei gefnogi o dan y Rhaglen honno. Cyfanswm y buddsoddiad yw £1.7m hyd at 31 Rhagfyr 2011, sef cyd-fuddsoddiad gan y Llywodraeth, arian cyfatebol preifat a chymorth drwy Gronfeydd Strwythurol yr UE. Mae'r cyllid hwn eisoes wedi'i drefnu ac mae wedi cael arian cyfatebol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 26.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru feithrin cysylltiadau â'r prif fanwerthwyr nwyddau gwynion er mwyn hybu rhwydweithiau lleol o fentrau trwsio dodrefn. Byddai hyn yn sicrhau bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi, byddai'n cefnogi hyfforddiant ar gyfer

cyflogaeth a sgiliau, ac yn cyflenwi'r nwyddau i'r bobl y mae arnynt eu hangen. **(Tudalen 48)**

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn ymwybodol o rywfaint o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan nifer o sefydliadau yng Nghymru o ran gweithio gyda chymunedau lleol i ddarparu hyfforddiant sgiliau mewn nwyddau gwyn a mathau eraill o gyfarpar cartref a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi. Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr dysgu yng Nghymru i gefnogi anghenion hyfforddiant lleol a bydd ein Rhaglen newydd "Camau i Gyflogaeth" fel rhan o'r tendr ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith yn rhan o'r sylfaen ar gyfer cymorth yn y maes hwn. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector sy'n gyfrifol am y maes hwn er mwyn sicrhau y ceir strwythurau cymhwyso sy'n cefnogi gofynion hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r egwyddor o ailddefnyddio ac ailgylchu nwyddau cartref.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw ofynion ariannol ychwanegol. Caiff "Camau i Gyflogaeth" ei gyflwyno yn lle'r Rhaglen Adeiladu Sgiliau o dan y tendr newydd ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae'r ymrwymiad ariannol hwn eisoes wedi cael ei gymeradwyo gan Weinidogion drwy Gyflwyniadau blaenorol ac mae'r tendr bellach wedi'i roi.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 27.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried dichonoldeb rhaglen "buddsoddi-i-gynilo" lle gellid defnyddio undebau credyd i ysgogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni ymhlith teuluoedd a busnesau. (**Tudalen 49)**

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Mae Strategaeth Tlodi Tanwydd a Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth y Cynulliad yn tynnu sylw at y rôl y gallai Undebau Credyd ei chwarae o ran darparu cymorth ariannol ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni a rhoi amrywiaeth ehangach o gymorth i'r rhai sy'n debygol o wynebu tlodi tanwydd.

Wrth dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, byddwn yn achub y blaen o ran ystyried y cyfleoedd a roddir gan Fargen Werdd arfaethedig Llywodraeth y DU fel ffordd o alluogi Undebau Credyd Cymru i gynnig cymorth yn eu cymunedau.

**Goblygiadau Ariannol:**

Drwy ddefnyddio cyfundrefn ariannu'r Fargen Werdd ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 28.** Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru fod yn fwy penderfynol o sicrhau bod Cymru'n ennill ei phlwyf fel lle llwyddiannus a dewis cyntaf cwmnïau sy'n datblygu, yn gwneud ac yn gosod cynhyrchion a thechnolegau gwyrdd, ac y dylid pennu camau a thargedau cadarnach fel y gellir gwireddu'r weledigaeth hon. **(Tudalen 52)**

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r cyfeiriad polisi yn Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd yn cefnogi economi carbon isel, gwastraff isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon a byddwn yn cefnogi mesurau sy'n annog ymddygiad busnes sy'n cefnogi'r amcanion ehangach hyn.

Mae Ynni a'r Amgylchedd yn un o'r chwe sector â blaenoriaeth a nodwyd gan Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd. Mae'r polisi yn cefnogi buddsoddi yn y maes hwn ac, ar ôl iddo gael ei sefydlu, bydd y panel sector annibynnol yn pennu blaenoriaethau ar gyfer ymrwymiad pellach gan AETh.

Mae diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol yn rhan o'n hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy ac ynddo'i hun mae'n ffurfio clwstwr busnes pwysig. Mae i adfer a rheoli amgylcheddol hanes hir yng Nghymru sy'n cael ei gydnabod yn fyd-eang.

Mae gan y sector hwn, sydd â digonedd o adnoddau naturiol a busnesau a all fanteisio ar y cyfle, botensial cadarn i dyfu ym meysydd ynni carbon isel, effeithlonrwydd ynni, storio ynni a seilwaith ynni, rheoli llygredd, rheoli amgylcheddol, ymchwil ac ymgynghoriaeth. Mae ymchwil arloesol i dechnolegau hydrogen wedi arwain yn ddiweddar at ddynodi De Cymru yn Ardal Economaidd Carbon Isel y DU (LCEA) ar gyfer tanwyddau trafnidiaeth amgen.

**Goblygiadau Ariannol** - Caiff unrhyw oblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r argymhellion a dderbynnir eu hystyried fel rhan o ddatblygu 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' a chaiff cyngor pellach ei geisio yn eu cylch.